

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar - nos Iau, 6ed o Chwefror 2020 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans, Margaret Griffith, William Ifor Hughes, Trefor Wyn Jones, Gareth O. Davies, Naomi Jones, Thomas Prys Jones, Darren Morley, Ceri Jones, Sion Aled Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr Aled Davies (Is-gadeirydd), Tegid Jones, Angela Williams, a Sian Angharad Parry.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 9fed o Ionawr 2020.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Chwefror 2020 gan y Cadeirydd.

4. Datgan buddiant personol.

Cyngorydd Margaret Griffith, datgan buddiant personol yn rhif 26(7), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Eisteddfod Gadeiriol Chwilog, oherwydd ei bod yn aelod o bwylgor yr Eisteddfod.

Cyngorydd Aled Evans, datgan buddiant personol o dan rhif 26(4) o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Mynwent Rydd Chwilog oherwydd ei fod yn aelod ar y pwyllgor hwnnw. Datgan buddiant personol yn rhif 26(13), sef Menter y Plu, oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r fenter.

Cyngorydd Trefor Wyn Jones, datgan buddiant personol yn rhif 26(7) o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Eisteddfod Chwilog, oherwydd ei fod ar y Pwyllgor.

Cyngorydd Anwen Jones, datgan buddiant personol rhif 26(13), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef, Menter y Plu, oherwydd ei bod yn berthynas i aelod o'r pwyllgor hwnnw.

Cyngorydd William Hughes, datgan buddiant personol rhif 26(2), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd, oherwydd ei fod yn aelod ar y pwyllgor hwnnw.

Cyngorydd Sion Aled Jones, datgan buddiant personol rhif 26(13), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Menter y Plu, oherwydd ei fod yn ysgrifennydd y fenter. Rhif 26(5), sef Neuadd Llanystumdwy oherwydd ei fod yn aelod o'r pwyllgor.

Cyngorydd Naomi Jones, datgan buddiant personol rhif 26(5), Neuadd Llanystumdwy, oherwydd ei bod yn aelod o bwylgor y Neuadd.

Cyngorydd Darren Morley, datgan buddiant personol rhif 26(9), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Clwb Peldroed Llanystumdwy, oherwydd ei fod yn frawd i gadeirydd y clwb peldroed. Rhif 26(14) o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Clwb Snwcer Chwilog, oherwydd fod ganddo gysylltiad â'r lle.

Cyngorydd Thomas Prys Jones, datgan buddiant personol rhif 26(3), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Mynwent Capel Helyg, Llanybi, oherwydd ei fod yn un o'r Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y Fynwent.

Materion gan Cyngor Gwynedd.

5. Cau'r ffordd ddi-ddosbarth a adwaenir fel Cae'r Ffynnon, Llanystumdwy- gwaharddiad trafndiaeth trwodd dros dro, y gwaith i gychwyn ar 23.01.2020, - er mwyn galluogi gwaith gosod prif bibell dŵr newydd a gwaith cloddio ychwanegol. Derbyn.

6. Bro Sion Wyn, Chwilog - ail wynebu arfaethedig - cychwn 23.01.2020 am 3 diwrnod. Derbyn.

7. Biniau halen o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt:-

- ger Gwyddfor, Chwilog, /Pentyrch Uchaf, Llangybi, /rhwng y Bont a Chapel y Beirdd,/ Bryn Beddau, Rhoslan a Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy.

Mae angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a gadael i'r Clerc wybod os oes angen ei llenwi. Pob un yn iawn.

8. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned.

a) Cais Rhif: C20/0013/41/DT - Talafor Stables, Llanystumdwy LL52 0SB - codi estyniad unllawr. *Datganwyd pryder i hawl tramwy cymdogion basio a chadw ar y lon, pe byddai'r estyniad yn cael ei ganiataw. Angen cymryd hyn i ystyriaeth.*

b) Cais Rhif: C19/1215/40/LL - Hafan y Mór, Pwllheli - cynllun i ddymchwel 56 o fflatiau, creu lleiniau newydd ar gyfer lleoli carafannau statig, llety tím newydd, caffi traeth newydd gan gynnwys teras a man chwarae, amddiffynfeydd arfordirol newydd, adlinio ychydig ar Lwybr Arfordir Cymru yn ogystal a thirlunio cysylltiedig, gwaith draenio, mynediad as isadeiledd.

Clerc am anfon y sylwadau isod at yr Adran Cynllunio:-

- *dywedwyd nad oedd y dogfennau yn dangos yn union pa ffordd yr oedd Lwybr yr Arfordir yn mynd i gael ei ailgyfeirio.*
- *nad oedd manylion faint yn union o fflatiau ac unedau newydd oedd yn mynd i gael ei adeiladu yno.*
- *tybed a fyddai'n bosib i'r cyhoedd fynd i'r caffi o'r traeth? Angen cymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth.*

9. Un Llais Cymru - Pwyllgor Arfon Dwyfor, fe wnaeth y Cynghorydd Trefor Jones a'r Clerc fynychu'r cyfarfod yn Swyddfa Cyngor Tref Caernarfon. Cafwyd cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Derbyniwyd cyflwyniad ar ofynion gwefan ar gyfer cynghorau cymunedol, a'r diweddaraf am y Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru newydd a sut y bydd yn effeithio cynghorau. Derbyniwyd adroddiad byr gan y Cynghorydd Trefor Jones.

10. Ymateb Un Llais Cymru i Ymgynghoriad ar y 'Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 03.01.2020-manylion wedi cael ei anfon drwy ebost at y Cynghorwyr. Derbyn.

11. Cynhadledd Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian 20.03.2020- cyfarfod 20.03.2020, 11:15 y.b. yn y Ganolfan, Porthmadog. Angen dychwelyd y daflen cyn 02.03.20 os oes rhywun eisiau nodi unrhyw fater/ cwestiwn i Trafndiaeth Cymru / 'Network Rail' / y Bartneriaeth neu'r Pwyllgor Cyffredinol. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at y Comisiynydd Iaith i ofyn pam nad oedd yr iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth ar y rheilffordd a bod hon yn broblem sydd yn bodoli ers blynnyddoedd.

12. Materion yn y gymuned.
Llanarmon

13. Llanystumdwy

Mainc rhwng Llanystumdwy a Bron Eifion – un o’r pyst rhybudd wedi cael ei falu. Y Cadeirydd am ddangos ‘adlewyrchydd’ a fyddai o bosib yn gwneud ar un ochr i’r fainc yn ein cyfarfod nesaf.

14. Rhoslan/Ynys

“Gordyfiant o goed y ddwy ochr i’r ffordd o Rhoslan i Llanystumdwy,(lon Gwynfryn).

Mae’r tyfiant wedi mynd allan o reolaeth sydd yn ei gwneud yn anodd i ddau gerbyd mawr basio eu gilydd. Mater o amser cyn y bydd damwain yn digwydd ar y lon”. Y Clerc wedi derbyn ymholiad gan aelod o’r cyhoedd, ac wedi anfon epost at yr Adran Priffyrdd fis Medi 2019, ac ym mis Ionawr 2020. Heb gael ateb eto, ond wedi gofyn am ddiweddariad ganddynt.

15. Chwilog

Maes chwarae Maes Myrddin, Chwilog – derbyniwyd llythyr gan Reolwr Prosiect Priffyrdd Cyngor Gwynedd 31.10.19, yn dweud oherwydd sefyllfa y toriadau ariannol, ei bod eisiau i ni ystyried y canlynol:-

i) adnabod os oes gennym ddiddordeb ac yn fodlon ystyried cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y maes chwarae uchod.

ii) Os oes gennym unrhyw wybodaeth leol allai awgrymu y buasai eraill fel grwpiau cymunedol cofrestredig yn barod i ystyried cymryd cyfrifoldeb am reoli’r maes chwarae yn y gymuned.

iii) A oes diddordeb gan ein cymuned ddatblygu ffordd o weithio gyda’n gilydd i ddatblygu ffordd ymlaen a dod ynghyd ag opsiynau unai i drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth.

- Fe anfonodd y Clerc lythyr yn nol at y Rheolwr Prosiect (24.11.19), i ofyn tybed a oedd bygythiad i golli’r parc yn Chwilog. Hefyd, pwysleisiwyd faint o bwysig oedd cadw’r adnodd yn y pentref, oherwydd fod tai newydd yn mynd i gael ei adeiladu yno’n fuan, gyda’r posibilrwydd byddai mwy o blant yn y pentref. Pwysleisiwyd fod costau sylweddol ynghlwm a chynnal y lle, ac fe ofynwyd am fwy o wybodaeth am ddatblygu ffordd o weithio i gael opsiynau neu i drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth fel ag oedd yn pwynt (iii, gweler uchod).

Derbyniwyd manylion o gostau cynnal y tir am flwyddyn 2018-19, a’r costau archwilio, ond ni dderbyniwyd atebion i weddill ein cwestiynau. Y Clerc felly wedi ail anfon y llythyr at y Rheolwr Prosiect er mwyn derbyn ymateb. Penderfynu aros tan y derbynir ymateb.

Bin baw ci – Chwilog – ymholiad yn dweud fod y bin baw ci wedi dod i lawr yn Chwilog ers tro ac angen ei ail osod. Y Clerc wedi trafod y mater hefo aelod o’r cyhoedd yn Chwilog, ac fe ofynwyd tybed a oedd yn bosib ei osod ar y postyn safle bws ar draws y lon. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau hefo’r Warden Gorfodaeth Stryd, i’w ail osod, ond nid oedd yn meddwl y byddai ei ail osod ar draws y lon i Lon y Plas yn datrys y broblem yn y fynwent, oherwydd y pellter.

Y Clerc wedi trefnu cyfarfod safle rhwng y Cynghorydd Aled Evans, aelod o Bwyllgor y Fynwent a'r Warden cyn y cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn gofyn am bris i osod stancyn/polyn pren 4" rhwng y ddwy wal, tua 2 lathen o'r arwydd am y fynwent yn y gwellt ger y fynedfa, ac roedd y Warden yn hapus i osod y bin ar hwnnw.

Llwybr troed o Chwilog i Afonwen

Y Clerc heb dderbyn ymateb i'r llythyr gafodd ei anfon at yr Aelod Cynulliad, felly wedi anfon ebost arall ato, yn gofyn am sylwadau. Gofynwyd i'r Clerc gofnodi siomiant nad oedd ymateb wedi cyrraedd cyn ein cyfarfod gan yr Aelod Cynulliad, ac i ofyn am ddiweddariad gan Cyngor Gwynedd.

Pencaenewydd/Sardis

16. Llangybi

i) Graffiti wal fewnol yn yr arosfan bws yn Llangybi - y Clerc wedi cysylltu hefo Criccieth Cleaning i gael pris ar gyfer cael gwared o'r graffiti. Wedi cynnig pris o £18.50+TAW yr awr, & tâl ychwanegol am gemegau i gael gwared ohono. Yna ar ol iddynt fynd i weld y graffiti, roeddent yn meddwl byddai'n well peintio drosto, ac yn cynnig pris o £74.00 + TAW am y llafur, a chost y paent a'r brws ar ben hynny. Trafodwyd y mater, ac fe ofynnwyd i'r Clerc ofyn wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi tybed a fyddent yn barod i beintio tu mewn i'r arosfan, drwy wneud 'llun' addas yno, ac y byddai'r Cyngor Cymuned yn barod i dalu am y paent.

ii) Arwyddbost yn Llangybi - derbyn ymholiad i gael arwydd newydd wrth yr arosfan bws, oherwydd nad oes un yno rwan. Angen un yn nodi cyfeiriad i Bryncir, Llangybi a Llanarmon. Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd, ond heb dderbyn ymateb eto.

iii) Rhwng Ty'n Rhos a Groeslon Bronallt, Llangybi - cyflwr ochr y lon yn beryglus ar ol glaw trwm gan fod y ffos wedi cau ac mae dail a 'mwd' yn achosi'r dwr lifo ar hyd y lon. Clerc wedi holi i weld os gellir cael 'pyst' yno fel rhybydd i yrrwyr, ond heb dderbyn ymateb eto.

iv) "Pant yn y ffordd o Langybi i Fryncir ger y Lon Goed yn dyfnhau yn raddol. Mae hyn tua 100 llath cyn cyrraedd y Lon Goed o gyfeiriad Cefn Pencoed ger lle mae gwinllan fechan ar yr ochr dde i'r ffordd". Y Clerc i anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.

Materion Ariannol

17. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2020, drwy ffurf rhestr 'excel'

Y Cadeirydd wedi llofnodi'r ddogfen 'cyfrifon' a'r ddogfen 'cyllideb', sydd wedi cael ei diweddarau hyd at 06.02.2020. Derbyn.

18. Praesept 2020-2021 - Clerc wedi anfon ebost at Bennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yn dweud fod Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn gofyn am £18,000.00 o braesept ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gohebiaeth gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn cadarnhau derbyn ffurflen praesept o £18,000.00 am y flwyddyn 2020/2021. Derbyn.

19. **Archwilio mewnol** – angen penderfynu os dylem ail ofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwiliad am y flwyddyn sy'n dod. **Cytunwyd y dylai'r Clerc ofyn wrth Cyngor Gwynedd wneud y gwaith archwilio mewnol o fis Ebrill 2020.**

20. **Hysbysfwrdd** – Mr Alun Owen eisioes wedi gosod y pedwar ohonynt.

21. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - Clerc wedi derbyn ebost gan Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor, yn cadarnhau ein bod wedi derbyn ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned o £417.80 (sef yr un ffigwr a llynedd), roedd y cyfanswm gwariant am eleni yn £960.00. **Derbyn.**

22. Cwmni Lightsource, fferm solar Tyddyn Gwyn, Gelli Gron – **heb dderbyn y taliad ganddynt eto.** Fe dderbyniwyd £3857.70 ganddynt llynedd, ar 08.01.19. ac fe gafodd ei dalu i'r cyfrif Budd Cymunedol. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau, gan obeithio y bydd wedi derbyn ateb cyn y cyfarfod. **Nid oedd ateb wedi cyrraedd cyn y cyfarfod ond fe gadarnhawyd drwy ebost y byddai'r arian y cael ei dalu'n fuan yn ystod y dyddiau nesaf.**

23. **Eisteddfod Genedlaethol 2021** – derbyniwyd llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, a Chadeirydd y Gronfa Leol, yn datgan mai £10,000.00 yw'r targed drafft yn ardal Llanystumdwy. **Cytunwyd i dalu £3000.00 i'r Gronfa leol, o gyfrif cyfredol y Cyngor Cymuned.**

24. Anfonebau angen eu talu:- drwy BACS.

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
SLCC (camgymeriad ar y rhaglen wreiddiol yn dweud SLCC-Clerc am dalu hwn mis nesaf (Mawrth) hefo un ALCC(angen talu y 2 hefo'i gilydd) Felly ni dalwyd hwn fis Chwefror 2020. Llythyr yn gamarweiniol gan SLCC).	Tâl aelodaeth blynyddol (2020/21) i'w dalu cyn 01.03.2020	40.00	-	40.00	<u>40.00</u>
Neuadd Llanystumdwy (cyfrif cyfredol)	Defnyddio'r Neuadd i gynnal cyfarfodydd 07.03.19/04.04.19/02.05.19	30.00	-	30.00	<u>30.00</u>
Neuadd Chwilog (cyfrif cyfredol)	Llogi Neuadd (493) 06.06.19/04.07.19/05.09.19	18.56	-	18.56	<u>18.56</u>
Y Ffynnon (cyfrif cyfredol)	Hysbyseb rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2019	28.00	-	28.00	<u>28.00</u>

Neuadd Chwilog (Cyfrif budd cymunedol)	Wifi £29.99 y mis rhwng - Ebrill 2019 - Mawrth 2020 & £9.99 am ei osod (&llai £39.98 sydd eisioes wedi cael ei dalau)	329.89	-	329.89	<u>329.89</u>
Capel Pencaenewydd (Cyfrif budd cymunedol)	Wifi £45.20 y mis rhwng Ebrill 2019 - Mawrth 2020	542.40	-	542.40	<u>542.40</u>
Alun Owen (Cyfrif budd cymunedol)	4 Hysbysfwrdd (rhif 1985)	2360.00	472.00	2832.00	2832.00

25. Cyflog mis Ionawr 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM:-

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Ionawr 2020 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.60	<u>290.35</u>	101148
Cyllid a Thollau EM- Treth ar enillion y Clerc Ionawr 2020	362.95 x 20% = llai treth £72.60	<u>72.60</u>	101149
Costau'r Clerc Ionawr 2020 Stamp i anfon rhaglen i'r Cynghorydd W.I.Hughes (& costau teithio i Gaernarfon)	16.00 0.61 & 16.20	<u>32.81</u>	101150

26. **CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor - hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr 2019 o'r Ffynnon gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2020. Derbyniwyd llythyr a mantolen ariannol gan bob un. Cytunwyd i dalu'r symiau isod ar y noson (yn dilyn y cyfarfod Pwyllgor Busnes a gafodd ei gynnal 05.12.19 ynglŷn â faint ddylid ei wario ar y ceisiadau am gymorth ariannol) :-

	<u>2019-2020 - Cais gan:-</u>	Swm £	Siec rhif/neu BACS	Cynghorwyr yn ymneilltuo
1.	Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi	500.00	Siec rhif 101151 Cyfrif cyfredol	Neb
2.	Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd	300.00	BACS Cyfrif budd cymunedol	William Ifor Hughes
3.	Mynwent Capel Helyg, Llangybi	500.00	Siec rhif 101152 Cyfrif cyfredol	Thomas Prys Jones

4.	Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog	1000.00	BACS Cyfrif cyfredol	Aled Evans
5.	Neuadd Llanystumdwy	500.00	BACS Cyfrif cyfredol	Sion Aled Jones, Naomi Jones
6.	Neuadd Goffa Chwilog	500.00	BACS Cyfrif cyfredol	
7.	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog	500.00	BACS Cyfrif cyfredol	Trefor Jones, Margaret Griffith,
9.	Clwb Peldroed Llanystumdwy	800.00	BACS Cyfrif cyfredol	Darren Morley
10.	Cwmni Drama Llanystumdwy	300.00	BACS Cyfrif cyfredol	Neb
11.	Clwb Garddio Ysgol Llangybi	Dim		Fe wnaethant dynnu ei cais yn nol cyn y cyfarfod.
12.	Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2021. <i>(O dan y Ddeddf Gwelliant (2000) ac adran s137 o LGA 1972 fydd y cyfraniad yn cael ei wneud).</i>	3000.00	Siec rhif (101154) Cyfrif cyfredol	Neb
13.	Menter yPlu	250.00	BACS Cyfrif budd cymunedol	Sion Aled Jones, Anwen Jones, Aled Evans
14.	Clwb Snwcer Chwilog	200.00	BACS Cyfrif budd cymunedol	Darren Morley
15.	Cymdeithas Paréd Dewi Sant	100.00	Siec rhif 101153 Cyfrif cyfredol	Neb
16.	Canolfan Hanes Uwchgwyrfai Cof y Cwmwd	Dim		Gwrthod oherwydd fod y cais wedi cyrraedd yn hwyr.
17.	Theatr Bara Caws	100.00	BACS Cyfrif cyfredol	Neb
18.	Dawns i Bawb	100.00	BACS Cyfrif cyfredol	Neb
19.	Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020, Sir Ddinbych	50.00	Siec rhif 101155 Cyfrif cyfredol	Neb
20.	Elusen Ambiwlans Awyr Cymru	Dim		Gwrthod y cais oherwydd fod y cais wedi cyrraedd yn hwyr.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.